# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Ebrill 12fed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady, Alyn Williams, Medwyn Jones

Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:

   a. **Baw Ci cynyddol ar Barc Main Garnfadryn –** Penderfynwyd i Alan Hughes yn rhinwedd ei swydd, roi ymholiad i Gyngor Gwynedd ynglŷn â chost gosod bin baw ci, bydd Alan yn adrodd yn ôl mis nesaf.

3. Gohebiaeth:

   a/ **Archwiliad Mewnol –** Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gynnal yr Archwiliad Mewnol.

   b/ **Anfoneb Un Llais Cymru –** Derbyniodd y Clerc ganiatâd i dalu anfoneb aelodaeth Un Llais Cymur o £160.00

   c/ **Llainfatw –** Adroddodd y Cadeirydd Sian Parri fod Llainfatw bellach ar werth a bod pryder ynglŷn â'r hyd fydd yn digwydd i'r arian a geir am yr eiddo, gan mai pwrpas gwreiddiol yr Elusen oedd talu am addysg i blant tlotaf y gymdeithas yn Llangwnnadl. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gynnig pob cefnogaeth i sicrhau y bydd unrhyw elw a wnei'r o'r gwerthiant yn cael ei ddynodi yn bwrpasol.

   ch/ **Porthysgaden** - Adroddodd y Cadeirydd Sian Parri fod cyfarfod brys wedi ei gynnal ym Mhorthsgadenar y 9fed Ebrill ynglŷn â'r broblem o

gampio dros nos a bod baw dynol wedi ei ddarganfod yno. Rhoddodd Sian grynodeb o'r hyn a drafodwyd – Gweler yr adroddiad yn llawn ynghlwm.

d/ **Cynnal Cyfarfodydd y Cyngor wyneb yn wyneb –** Cafwyd ar ddeall fod sawl aelod o'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gynnal ein cyfarfodydd wyneb yn wyneb unwaith eto yn hytrach na thros zoom. Oherwydd nad yw'r rheolau yn eglur iawn ar hyn, bydd y Cadeirydd neu'r Clerc yn edrych i fewn i'r mater ac yn adrodd yn ôl yn ystod y mis.

dd/ **Cronfa Capel Bethania Pistyll –** Derbyniodd y Clerc gais yn gofyn am gyfraniad ariannol i gefnog'r ymgyrch leol i brynu Capel Bethania Pistyll gan ei droi yn ganolfan cofiant i'r Parch Tom Nefyn, a throi rhan ohono yn dy i'w rentu. Trafodwyd y cais a phenderfynwyd cyfrannu £200.00

e/ Cais Cynllunio C21/0250/46/RC – Gwel yr Ynys Dinas – Cais i godi amod Adran 106 – Sylw: Nid yw'r Cyngor Cymuned yn hapus fod yr amod yn cael ei godi, ond yn ymwybodol ei bod yn anodd ei wrthod.

f/ Cais Cynllunio C210286/46/RC – Argraig, Llangwnnadl – Cais i godi amod Adran 106 – Sylw: Nid yw'r Cyngor Cymuned yn hapus fod yr amod yn cael ei godi, ond yn ymwybodol ei bod yn anodd ei wrthod.

Ff/ Cais Cynllunio C21/0317/46/DT 2 Bryn Hyfryd, Garnfadryn – Sylw: Pryder fod ty haf yn codi estyniad mor fawr fydd yn codi gwerth yr eiddo tu hwynt i allu person lleol ei brynu pe byddai'n dod nol ar y farchnad.

g/ Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a Cyngor Gwynedd y gofyn iddynt edrych ar ffyrdd o helpu pobl leol i brynu tai.

4. **Unrhyw fater arall**:

a/ Gofynnwyd i'r Clerc edrych nol drwy hen geisiadau cynllunio a chael diweddariad o'r sefyllfa gan Swyddogion Cyngor Gwynedd.

b/ 'Speed bumps' yn Tudweiliog – Gofynwyd i'r Clerc ofyn i Cyngor Gwynedd am arweiniad ar sut i gael 'speed bumps' ym mhentref Tudweiliog.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 10ed Mai 2021
am 7.30yh